# Y CWTSH CYMREIG I DEULUOEDD

Mehefin 2024

## MAE TYMOR YR ŴYL YN NESAU!

Wrth i ni nesau at fisoedd yr haf, mae 'na gymaint o ddigwyddiadau cyffrous ar y gweill i deuluoedd ar draws De a Gorllewin Cymru.

Dyma ffocws ar rai ddigwyddiadau sydd i ddod yn Sir Gaerfyrddin dros mis Mehefin & Gorffennaf:

## MIS MEHEFIN:




### GŴYL FACH NEWY'

Mae Gŵyl Fach Newy' yn ôl eto eleni ac wedi'i hanelu'n benodol at deuluoedd a phlant ifanc. Wedi'i leoli ar gae chwarae Brenin Siôr V yng Nghastell Newydd Emlyn (SA38 9AR). Mynediad am ddim!

Ewch i dudalen Facebook Menter Gorllewin Sir Gâr am fwy o wybodaeth.

### CERDYN POST O WLAD Y RWLA
### 27.6
### Y LYRIC CAERFYRDDIN



Dewch i gwrdd â Rala Rwdins, Rwdlan, Dewin Doeth, Dewin Dwl, Llipryn Llwyd, Strempan – heb anghofio Mursen y gath!

Dewch i ymuno â'r cymeriadau wrth iddynt gychwyn ar eu gwyliau. Ac fel bob amser gyda'r criw yma, mi fydd 'na lot o driciau, canu a chwerthin!

**Cliciwch yma i archebu'ch lle!**

Y CWTSH CYMREIG - I DEULUOEDD

Mehefin 2024

# DYDDIAD I'W NODI - MIS GORFFENNAF

Wedi'i lleoli ar gaeau Parc Myrddin yng nghanol tref Caerfyrddin (SA31 1DS), mae Gŵyl Canol Dre yn mynd i fod yn ddiwrnod llawn hwyl, cerddoriaeth, bwyd, ac ystod o weithdai a gweithgareddau i'r teulu cyfan!




Cliciwch yma am fwy o wybodaeth, neu sganiwch y côd:

